# Polisi Diogelu

## Awst 2025

| | |
|---|---|
| **Cymeradwywyd Gan:** | Bwrdd Ymddiriedolwyr Maint Cymru |
| **Gweithredwyd Gan:** | Cyfarwyddwr a Swyddog Diogelu Maint Cymru |
| **Dyddiad Cymeradwyo:** | Awst 2025 |
| **Dyddiad Adolygu Nesaf:** | Gorffennaf 2027 |



## Cynnwys

1. Polisi Diogelu....................................3 2.
Beth ydy diogelu? ....................................4 3.
Cwmpas....................................4 4.
Datganiad Polisi ....................................5 5.
Atal....................................6 5.1.
Sicrhau proses recriwtio, sefydlu a hyfforddi ddiogel....................................6 5.2.
Hyfforddiant....................................7 5.3.
Cyfrifoldebau Staff a Gwirfoddolwyr - Cod Ymddygiad....................................8 5.4.

Sicrhau rhaglenni diogel yng Nghymru a thramor ..................................................10 6.
Rhoi gwybod am bryderon neu honiadau.................................................................11 6.1.
Sut i roi gwybod am bryder diogelu..........................................................................11 7.
Ymateb i bryder neu honiad........................................................................................12 7.1.
Rhoi gwybod am honiadau yn y Deyrnas Unedig....................................................13 7.2.
Rhoi gwybod am honiadau dramor ...........................................................................14 7.3.
Caniatâd i ysgrifennu adroddiad diogelu .................................................................14 7.4.
Rhoi gwybod i'r Comisiwn Elusennau ......................................................................15 7.5.
Rhoi gwybod i roddwyr ................................................................................................15 7.6.
Mesurau Disgyblu............................................................................................................16 7.7.
Cymorth i oroeswyr a staff ..........................................................................................17 7.8.
Rhoi gwybod am fwlio neu aflonyddu .........................................................................17 8.
Monitro a Gwerthuso.......................................................................................................17 9.
Cyfrinachedd...........................................................................................................18 10.
Atodiad 1: Rhestr Termau.........................................................................................19



# 1. Polisi Diogelu

Pwrpas y polisi hwn ydy amddiffyn pawb, yn enwedig menywod, merched, bechgyn, oedolion sydd mewn perygl / agored i niwed a'r rheini sydd yn cymryd rhan mewn prosiectau, staff a gwirfoddolwyr rhag unrhyw niwed a allai gael ei achosi oherwydd eu bod yn dod i gysylltiad â Maint Cymru.

**Oedolyn bregus** (cyd-destun datblygu rhyngwladol) ydy unigolyn 18 neu hŷn sydd mewn mwy o risg o niwed difrifol oherwydd ffactorau fel rhywedd, oedran, iechyd meddyliol neu gorfforol, neu o ganlyniad i dlodi, anghydraddoldeb neu brofiad o ddadleoli neu argyfwng. Mae diogelu oedolion bregus yn broses o ddiogelu oedolion rhag cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso, a galluogi oedolion i gadw rheolaeth dros eu

bywydau a gwneud dewisiadau gwybodus heb orfodaeth.

Yng Nghymru, rydym yn defnyddio diffiniad Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 o oedolyn sy'n wynebu risg fel oedolyn sydd:

- Yn profi neu mewn perygl o brofi camdriniaeth neu esgeulustod, • Yn meddu ar anghenion am ofal a chymorth (p'un a yw'r awdurdod yn diwallu unrhyw un o'r anghenion hynny ai peidio), ac
- ganlyniad i'r anghenion hynny, na all amddiffyn ei hun rhag camdriniaeth neu esgeulustod neu'r perygl ohonynt.

Mae'n bwysig nodi:

- mae defnyddio'r term ' 'wynebu risg' yn golygu nad oes angen i gamdriniaeth neu esgeulustod gwirioneddol ddigwydd cyn i ymarferwyr ymyrryd, yn hytrach dylid ystyried ymyriadau cynnar i amddiffyn oedolyn sy'n wynebu risg er mwyn atal camdriniaeth ac esgeulustod gwirioneddol;
- mae'r tri amod sy'n angenrheidiol i ddangos bod oedolyn sy'n wynebu risg o gamdriniaeth neu esgeulustod yn sicrhau bod amddiffyniad yn cael ei ddarparu i'r rheini ag anghenion gofal a chymorth sydd *hefyd* angen camau i sicrhau diogelwch yr unigolyn yn y dyfodol oherwydd nad yw'n gallu amddiffyn ei hun;
- bod camdriniaeth oedolion yr ystyrir eu bod 'mewn perygl' yn aml yn gysylltiedig â'u hamgylchiadau yn hytrach na nodweddion y bobl sy'n profi niwed;[1] • gall y risg o gamdriniaeth neu esgeulustod fod yn ganlyniad un pryder neu ganlyniad i ffactorau cronnus.

Plentyn ydy person sydd dan 18 mlwydd oed.



Mae hyn yn cynnwys niwed sy'n codi o:

- Ymddygiad staff neu bersonél sy'n gysylltiedig â Maint Cymru
- Ddylunio a gweithredu rhaglenni a gweithgareddau Maint Cymru

Mae'r polisi'n nodi'r ymrwymiadau sydd wedi cael eu gwneud gan Maint Cymru, ac yn rhoi gwybod i staff a staff cysylltiedig[1] am eu cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelu.

Nid yw'r polisi hwn yn ymdrin â phryderon diogelu yn y gymuned ehangach sydd ddim yn cael eu cyflawni gan Maint Cymru neu staff cysylltiedig.

Mae'r polisi hwn wedi cael ei ddatblygu yn unol â'r canlynol:

- Safonau diogelu manylach y Swyddfa Dramor, Gymanwlad a Datblygu ● Mesurau

arbennig y Cenhedloedd Unedig ar gyfer amddiffyn rhag cam-fanteisio rhywiol a cham-drin rhywiol

- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC).
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Deddf Adsefydlu Troseddwyr ROA1974
- Gweithdrefnau Diogelu Cymru (sy'n helpu ymarferwyr i gymhwyso Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014).

## 2. Beth ydy diogelu?

Yng Nghymru, mae diogelu'n golygu atal a diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso, ac addysgu'r bobl o'u cwmpas i adnabod yr arwyddion a'r peryglon.

Mae'n golygu amddiffyn pobl, yn enwedig menywod, merched, bechgyn ac oedolion sydd mewn perygl / oedolion agored i niwed, rhag niwed sy'n deillio o ddod i gysylltiad â'n staff neu'n rhaglenni. Pan rydym yn cael ein gwneud yn ymwybodol o faterion diogelu sydd ddim yn gysylltiedig â staff / rhaglenni Maint Cymru, byddwn yn eu cyfeirio'n briodol, fel y gellir archwilio opsiynau eraill i ddatrys y broblem.

Gallwch weld diffiniadau pellach yn ymwneud â diogelu yn y rhestr termau yn Atodiad

## 1. 3. Cwmpas

Mae'r polisi hwn yn gymwys i'r canlynol:

- Yr holl staff sy'n gweithio i Maint Cymru
- Staff cysylltiedig tra byddant yn ymwneud â gwaith neu ymweliadau sy'n gysylltiedig â Maint Cymru, gan gynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt: aelodau'r bwrdd, ymgynghorwyr; gweithwyr llawrydd, gwirfoddolwyr;

[1] Gweler Atodiad 1: Rhestr Termau i ddiffinio "staff cysylltiedig".



ymchwilwyr; ymwelwyr â rhaglenni, sy'n cynnwys newyddiadurwyr, enwogion a gwleidyddion sydd wedi cael eu penodi neu eu recriwtio gan Maint Cymru, neu y bernir eu bod yn cynrychioli Maint Cymru mewn unrhyw ffordd yng Nghymru neu dramor.

## 4. Datganiad Polisi

Bydd Maint Cymru yn cynnwys atal Camfanteisio'n Rhywiol, Cam-drin Rhywiol ac Aflonyddu Rhywiol (SEAH) fel rhan o'r diwylliant gwaith. Byddwn bob amser yn gweithredu gyda pharch ac yn helpu i greu a chynnal amgylchedd sy'n atal, adrodd ac ymateb i SEAH. Mae gan arweinwyr a rheolwyr ar bob lefel gyfrifoldeb penodol i

adnoddi, datblygu, gweithredu a chefnogi amddiffyniad gan systemau SEAH er mwyn adnabod, monitro a mynd i'r afael â risgiau a phrofiadau SEAH yn weithredol.

Mae Maint Cymru yn credu bod gan bawb rydym yn dod i gysylltiad â nhw, waeth beth fo'u hoedran, hunaniaeth o ran rhywedd, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, ethnigrwydd neu grefydd, yr hawl i gael eu hamddiffyn rhag pob math o niwed a achosir gan gam fanteisio rhywiol, camdriniaeth, aflonyddu, esgeulustod a bwlio. Rydym yn gwerthfawrogi amrywiaeth a chyfrinachedd, ac nid ydym yn gwahaniaethu yn erbyn unrhyw berson am unrhyw reswm. Byddwn ond yn portreadu pobl â theimlad o urddas, a byddwn yn gweithredu'n onest, yn dryloyw ac yn atebol. Nid yw Maint Cymru yn goddef bwlio, aflonyddu, cam-fanteisio a cham-drin rhywiol gan staff neu staff cysylltiedig, a bydd yn rhedeg rhaglenni diogel mewn amgylchedd sy'n cefnogi iechyd a lles corfforol ac sy'n cael ei wneud er lles gorau'r plentyn / person agored i niwed. Mae Maint Cymru yn ymrwymedig i sicrhau cyfranogiad cynhwysol i bawb, i weithio'n weithredol i atal eithrio oherwydd nam neu analluogrwydd, ac i gydnabod y peryglon negyddol posibl i iechyd meddwl a lles y gall eithrio o’r fath ei gael. Rydym wedi ymrwymo i greu gofod a systemau i feithrin ymwybyddiaeth a hyder staff i ddweud eu dweud. Mae gan yr holl staff a chynrychiolwyr cysylltiedig ddyletswydd orfodol i roi gwybod am yr holl bryderon diogelu ar unwaith i Swyddog Diogelu Maint Cymru, Swyddog Diogelu'r Ymddiriedolwyr neu unrhyw ymddiriedolwr arall, naill ai wyneb yn wyneb, neu trwy'r cyfeiriadau e-bost neu’r rhif ffôn a nodir isod. Mae gan bawb gyfrifoldeb am ddiogelu. Dylai'r staff ddefnyddio'r ffurflen sydd yn Atodiad 3 i roi gwybod am bryderon.

**Manylion diogelu:**

*Swyddog Diogelu:* Barbara Davies Quy,

safeguarding@sizeofwales.org.uk +44 (0) 7811 460 269

*Swyddog Diogelu'r Ymddiriedolwyr*: John Hunt (Dirprwy Gyfarwyddwr y Bwrdd / Ymddiriedolwr) trusteesafeguarding@sizeofwales.org.uk



Os yw'n argyfwng a bod risg uniongyrchol o niwed sylweddol, dylai aelod o staff roi gwybod am yr achos yn allanol i'r gwasanaethau brys ar unwaith. Os nad oes risg uniongyrchol, dylech roi gwybod am yr achos yn fewnol i'r Swyddog Diogelu.

Mae Maint Cymru yn ceisio mynd i'r afael â diogelu drwy ei holl waith, drwy’r tri philer sef **atal, adrodd** ac **ymateb**. Mae Maint Cymru yn cydnabod bod ganddo ddyletswydd gofal diogelu i gyfranogwyr, staff a gwirfoddolwyr prosiectau, gan gynnwys lle mae partneriaid eilaidd yn rhan o'r ddarpariaeth.

## 5. Atal

Bydd Maint Cymru yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau i leihau'r risg o bryderon diogelu rhag digwydd.

## 5.1. Sicrhau proses recriwtio, sefydlu a hyfforddi ddiogel

- Cynnwys ymrwymiadau diogelu Maint Cymru mewn hysbysebion swyddi, disgrifiadau swyddi a thelerau cyfeirio fel y bo'n berthnasol.
- Ceisio recriwtio'r holl staff cyflogedig a gwirfoddolwyr yn defnyddio gweithdrefnau, mesurau diogelu a gwiriadau priodol. Bydd Maint Cymru yn dilyn canllawiau ar rolau sy'n gofyn am wiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. https://www.gov.uk/government/collections/dbs-eligibility-guidance. Mae'r tim Addysg a'r staff allgymorth cymunedol yn destun archwiliadau manylach y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, ac unrhyw staff sydd mewn cysylltiad uniongyrchol cyson â phlant, gan gynnwys staff sy'n rheoli'r staff hynny. Bydd y Swyddog Diogelu, y Cyfarwyddwr a Swyddog Diogelu'r Ymddiriedolwyr yn destun gwiriad DBS manwl hefyd. At hynny, bydd yn ofynnol i unrhyw staff sy'n debygol o ymweld â phrosiectau coedwigoedd Maint Cymru dramor a chyfarfod â chyfranogwyr y prosiectau gael gwiriad sylfaenol. Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei chynnwys mewn hysbysebion swyddi a disgrifiadau swyddi.
- Asesu unrhyw wybodaeth am gofnodion troseddol a ddatgelir yn unol â'n polisi Diogelu Data a Chydraddoldeb ac Amrywiaeth, ac ar sail a yw'r troseddau a ddatgelwyd yn ddigon difrifol i wahardd recriwtio ar gyfer y rôl benodol honno. Ni fydd pobl sydd â chollfarn flaenorol am unrhyw drosedd yn erbyn plant, fel y manylir mewn tystysgrif DBS, neu am gam-fanteisio neu gam-drin rhywiol yn erbyn oedolyn yn cael eu cyflogi gan Maint Cymru mewn rôl ble mae angen bod mewn cyswllt uniongyrchol gyda phlant neu oedolion. Mae Maint Cymru yn gofyn am gynnal ailasesiad bob tair blynedd ar gyfer swyddi perthnasol.
- Trafod cynnwys unrhyw ddatgeliad gyda'r ymgeisydd, cyn tynnu unrhyw gynnig o gyflogaeth yn ôl.
- Gofyn cwestiynau sgrinio priodol yn ystod prosesau dethol/cyfweld ar gyfer rolau perthnasol.



- Derbyn tystlythyrau ar gyfer holl swyddi, rolau gwirfoddolwyr ac ymddiriedolwyr Maint Cymru. Bydd y ffurflen gais am eirda yn cynnwys cwestiwn ar ddiogelu.
- Sicrhau bod pob aelod o staff yn gallu cael gafael ar y polisi hwn ac yn gwybod amdano, ac yn gwybod eu cyfrifoldebau o fewn y polisi hwn ac yn glynu at God Ymddygiad Maint Cymru.
- Gosod cyfnod prawf o chwe mis o leiaf ar gyfer yr holl staff a gwirfoddolwyr.
- Bydd y Swyddog Diogelu a Swyddog Diogelu'r Ymddiriedolwyr yn meddu ar yr

wybodaeth ddiweddaraf am arfer gorau a deddfwriaeth ddiogelu.

## 5.2. Hyfforddiant

Bydd Maint Cymru yn gwneud yn siŵr bod staff ac aelodau o'r bwrdd yn derbyn hyfforddiant ar ddiogelu a chod ymddygiad ar lefel sy'n cyfateb i'w rôl yn y sefydliad (hyfforddiant cynefino ar gyfer staff ac ymddiriedolwyr newydd a hyfforddiant gloywi o leiaf bob 3 blynedd). Bydd staff sy'n meddu ar rolau penodol ym maes diogelu yn derbyn hyfforddiant mwy aml. Bydd yr holl staff sydd wedi derbyn yr hyfforddiant cynefino diogelu yn llofnodi ffurflen datganiad personol (atodiad 8). Dylid cofnodi a monitro dyddiadau pan fydd hyfforddiant cynefino a diweddaru wedi'i gwblhau gan y Swyddog Diogelu.

Bydd yr hyfforddiant yn unol â'r Fframwaith hyfforddiant, dysgu a datblygu diogelu cenedlaethol. Mae'r fframwaith hwn yn esbonio sut y gellid cynnal hyfforddiant diogelu. Mae Grŵp A i C yn gymwys yn Maint Cymru.

- Grŵp A **Pob aelod o staff/ymddiriedolwr sydd yn gweithio ym Maint Cymru**
  Mae angen i'r grŵp hwn gael ymwybyddiaeth ar lefel sylfaenol o ddiogelu, a gwybod sut i roi gwybod am bryder. Mae hyn yn cynnwys y modiwl diogelu ar lein hwn.
- **Grŵp B - Staff / gwirfoddolwyr sydd yn gweithio'n uniongyrchol gyda phlant, pobl ifanc (hyd at 18 oed) ac oedolion mewn perygl mewn gosodiad grŵp neu ar sail un i un**
  Staff sydd yn gweithio mewn lleoliadau lle y gallant wynebu materion diogelu a lle y gallant fod angen cael dealltwriaeth ddyfnach o bolisïau a gweithdrefnau diogelu. Mae angen iddynt feddu ar y sgiliau a'r wybodaeth i ymateb, adrodd a chofnodi pryderon neu honiadau sy'n gysylltiedig â diogelu. Mae hyn yn isafswm hyfforddiant o 6 awr.
- **Grŵp C - Staff / ymddiriedolwyr Maint Cymru sydd â chyfrifoldeb uniongyrchol am ddiogelu pobl.**
  Mae Grŵp C yn staff / ymddiriedolwyr sydd yn gyfrifol am asesu risgiau diogelu, gwneud penderfyniadau am gamau amddiffynnol a chydlynu gyda gweithwyr proffesiynol eraill mewn sefyllfaoedd diogelu cymhleth, fel y Swyddog Diogelu,



  Swyddog Diogelu'r Ymddiriedolwyr a'r Cyfarwyddwr. Rhaid iddynt gwblhau hyfforddiant grŵp A a B, a chwblhau o leiaf 6 awr o hyfforddiant bob blwyddyn, sydd yn cael ei adnewyddu bob 3 blynedd.
- **Grŵp D – Ymarferwyr sydd yn gweithredu ar lefel uwch yn y broses ddiogelu**
  Mewn addysg, byddai hyn fel arfer yn cynnwys y pennaeth diogelu ar gyfer yr

awdurdod lleol. Mae ganddynt wybodaeth uwch am arferion diogelu, ac efallai eu bod yn gyfrifol am arwain adolygiadau diogelu, ac am ddarparu cyngor arbenigol a goruchwylio prosesau diogelu o fewn eu sefydliad neu ar draws sawl asiantaeth.

- **<u>Grŵp E</u> – Ymarferwyr sydd yn cael y gair olaf ynghylch penderfyniadau diogelu**

Mae'r grŵp hwn yn cynnwys staff gwasanaethau cymdeithasol mewn rolau arweinyddiaeth strategol, fel y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ac eraill sy'n arwain y gwasanaeth ar gyfer plant ac oedolion. Byddai hyn hefyd yn cynnwys partneriaid statudol allweddol gyda'r lefel uchaf o gyfrifoldeb mewn gwneud penderfyniadau yn y broses ddiogelu. Mae'r unigolion hyn yn aml yn cymryd rhan mewn mentrau diogelu rhanbarthol neu genedlaethol, a disgwylir iddynt ddarparu arweiniad arbenigol ar faterion diogelu cymhleth.

- **<u>Grŵp F</u> – Y bobl ar y lefel uchaf mewn sefydliad**

Mae gan arweinwyr y sector cyhoeddus y cyfrifoldeb uchaf i sicrhau bod prosesau diogelu yn cael eu rheoli'n effeithiol o fewn eu sefydliadau. Enghreifftiau o'r rhain yw Cyfarwyddwyr Addysg, Cynghorwyr Lleol a Llywodraethau Ysgolion. Mae'n rhaid iddynt sicrhau bod adnoddau digonol yn cael eu dyrannu ar gyfer gweithgareddau diogelu, a bod eu sefydliadau yn bodloni gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol.

## 5.3. Cyfrifoldebau Staff a Gwirfoddolwyr - Cod Ymddygiad

Bydd holl staff, gwirfoddolwyr, derbynwyr grantiau, partneriaid a staff cysylltiedig Maint Cymru yn glynu wrth safonau ymddygiad uchel ac yn glynu wrth ein polisi diogelu. Bydd holl staff, gwirfoddolwyr, derbynwyr grantiau, partneriaid a staff cysylltiedig Maint Cymru yn cyflawni'r canlynol:

- Creu amgylchedd lle mae plant, pobl ifanc ac oedolion mewn perygl / oedolion agored i niwed yn teimlo'n saff, yn ddiogel, ac fel eu bod nhw'n cael eu gwerthfawrogi a'u parchu.
- Sicrhau bod mwy nag un oedolyn yn bresennol yn ystod gweithgareddau gyda phlant, pobl ifanc neu oedolion mewn perygl / oedolion agored i niwed neu o fewn golwg neu glyw eraill; gweithio mewn amgylchedd agored bob amser gan osgoi sefyllfaoedd preifat neu sefyllfaoedd heb eu diogelu.



- Ni ddylid cael cyswllt 1:1 rhwng staff/gwirfoddolwr a pherson ifanc drwy offer neu negeseuon digidol.
- Parchu hawl person ifanc i breifatrwydd personol; bod yn ymwybodol o ofod personol a chadw pellter priodol, ac y gall cyswllt corfforol â phlentyn, person ifanc neu oedolyn mewn perygl gael ei gamddehongli.

- Ystyried sut rydych chi'n datblygu perthynas â phlant, pobl ifanc ac oedolion sydd mewn perygl / oedolion agored i niwed, er mwyn atal unrhyw weithgaredd a allai gael ei ystyried yn amhriodol neu'n gamfanteisiol mewn unrhyw ffordd arall.
- Cymryd honiadau o niwed o ddifrif bob amser - peidio â gorliwio na bychanu. ● Rhoi gwybod am yr holl bryderon neu honiadau diogelu ar unwaith. Dyma eich dyletswydd orfodol.

**Gwaherddir** holl staff, gwirfoddolwyr, derbynwyr grantiau, partneriaid a staff cysylltiedig Maint Cymru rhag cymryd rhan yn yr ymddygiad niweidiol canlynol. Bydd unrhyw fethiant i gydymffurfio ag unrhyw un o'r gofynion hyn yn fater disgyblu. Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

- Unrhyw ymddygiad neu weithgaredd a allai arwain at gam-fanteisio a cham-drin rhywiol.
- Gweithgarwch rhywiol gyda phlant (personau o dan 18 oed), waeth beth fo oedran y mwyafrif neu'r oedran cydsynio yn lleol. Nid yw cred gyfeiliornus ynglŷn ag oedran plentyn yn amddiffyniad.
- Cyfnewid arian, cyflogaeth, nwyddau, neu wasanaethau ar gyfer rhyw, gan gynnwys ffafrau rhywiol neu fathau eraill o ymddygiad cywilyddus, diraddiol neu ffrwydrol.
- Unrhyw weithgaredd arall y bwriedir iddo achosi niwed corfforol neu emosiynol, esgeulustod, cywilydd neu gam-fanteisio i unrhyw unigolyn.
- Unrhyw weithgarwch, arfer neu ymddygiad sy'n awgrymu bod staff, derbynwyr grantiau neu bartneriaid wedi camddefnyddio eu sefyllfa o bŵer ac yn ymgysylltu ag unrhyw unigolyn ar sail dynameg pŵer sy'n hanfodol anghyfartal.
  - Rhybuddir yn gryf yn erbyn dechrau perthynas rywiol rhwng staff, derbynwyr grantiau, partneriaid ac unrhyw unigolion sy'n seiliedig ar ddynameg pŵer anghyfartal, gan y gallant danseilio hygrededd ac uniondeb gwaith Maint Cymru.
- Gwahaniaethu yn erbyn, dangos triniaeth wahaniaethol, neu ffafrio unigolion penodol i eithrio eraill.
- Defnyddio cyfrifiaduron neu offer arall y sefydliad i weld, lawrlwytho, creu neu ddosbarthu deunydd amhriodol, gan gynnwys pornograffi, ond heb fod yn gyfyngedig iddo.



Bydd yr holl staff, gwirfoddolwyr, derbynwyr grantiau a phartneriaid prosiect coedwigoedd yn rhoi gwybod am bryderon diogelu yn unol â'r polisi hwn.

## 5.4. Sicrhau rhaglenni diogel yng Nghymru a

thramor Bydd Maint Cymru yn ymrwymo i'r canlynol:

- Cynllunio a chynnal ei holl raglenni a gweithgareddau yng Nghymru a thramor mewn ffordd sy'n lleihau'r risg o niwed a allai godi gan blant, pobl ifanc ac oedolion sydd mewn perygl / oedolion agored i niwed sy'n dod i gysylltiad â Maint Cymru. Wrth gyflwyno ein rhaglen, byddwn yn mynd ati'n weithredol i ddarganfod a chyfeirio at rwystrau posibl i oedolion anabl neu fregus i gymryd rhan, ac yn sicrhau bod rhaglenni a gweithgareddau'n cael eu dylunio i fod yn gynhwysol ac yn hygyrch ac yn sgil hynny, diogelu yn erbyn unrhyw deimladau o eithrio ac effeithiau negyddol ar iechyd meddwl a lles.
- Cynnal asesiadau risg ar gyfer gweithgareddau yng Nghymru a thramor a fydd yn cynnwys plant, pobl ifanc ac oedolion sydd mewn perygl / oedolion agored i niwed sy'n cynnwys materion diogelu.
- Cynnwys safonau diogelu ym mhrosesau diwydrwydd dyladwy a sgrinio prosiectau'r partneriaid coedwigoedd.
- Cynnwys cymalau diogelu mewn cytundebau partneriaeth ac ar ffurflenni adrodd. Mae hyn yn cynnwys (i) hysbysu Maint Cymru o'r holl bryderon diogelu neu gwynion sy'n ymwneud â phrosiectau neu raglenni sydd yn cael eu hariannu gan Maint Cymru dramor, neu am ein cynrychiolwyr a (ii) dilyn canllawiau cyfathrebu diogel a diogelwch ar-lein, a cheisio caniatâd gwybodus (gweler Atodiad 4) a (iii), cymryd camau dilynol yn sgil adroddiadau am bryderon diogelu yn brydlon, ac yn unol â'r broses briodol.
- Ar gyfer unrhyw waith cyfathrebu, gofyn am ganiatâd gan y plentyn a'r rhieni / ysgolion wrth weithio gyda phlant ac oedolion sydd mewn perygl / oedolion agored i niwed. Mae hyn yn cynnwys cyfranogwyr prosiectau mewn prosiectau tramor. Gweler Atodiad 4 am ragor o wybodaeth.
- Sicrhau ei fod yn rhannu ei bolisi diogelu'n eang â rhanddeiliaid perthnasol (rhoddwyr, partneriaid, ysgolion) ac yn hyrwyddo ffyrdd hygyrch o dderbyn pryderon diogelu, gan gynnwys fersiynau sy'n ystyriol o blant o'r polisi. Dylai plant, pobl ifanc ac oedolion sydd mewn perygl / oedolion agored i niwed gael eu cyfarwyddo i sicrhau eu bod yn gwybod sut i fynd at oedolion os ydynt yn wynebu anawsterau, a chredu y bydd rhywun yn gwrando arnynt yn effeithiol ac y bydd eu pryderon yn cael eu cymryd o ddifrif ac y gweithredir arnynt.
- Sicrhau bod polisi diogelu a Chod Ymddygiad yn cael eu cynnwys mewn contractau ar gyfer gwasanaethau neu nwyddau e.e. contractau ymgynghori. Bydd copi o'r polisïau yn cael ei rannu â'r unigolyn/unigolion perthnasol, ac mae'n rhaid iddynt gadarnhau eu bod nhw wedi eu darllen a'u deall.



- Bydd Maint Cymru yn sicrhau bod pob ymwelwr â phrosiectau tramor yn cael hyfforddiant briodol, gan gynnwys ar y normau diwylliannol a deddfwriaeth y

wlad honno, yn enwedig pan fydd hyn yn wahanol i arferion y DU. Mewn gwledydd lle mae deddfwriaeth gwrth-LHDTC+ yn bodoli, cynghorir ymwelwyr i beidio â theithio os ydynt yn ystyried eu hunain yn LHDTC+, oherwydd y risg gynyddol o niwed.

## 6. Rhoi gwybod am bryderon neu honiadau

Mae gan staff a chynrychiolwyr cysylltiedig Maint Cymru **ddyletswydd orfodol i roi gwybod am yr holl bryderon neu honiadau diogelu ar unwaith.** Nid cyfrifoldeb y staff yw penderfynu p'un ai bod cam-fanteisio neu gam-drin wedi digwydd ai peidio, ond rhaid iddynt basio eu pryderon ymlaen.

Bydd unrhyw staff sy'n rhoi gwybod am bryderon neu gwynion drwy sianeli chwythu'r chwiban ffurfiol (neu os byddant yn gofyn amdano) yn cael eu diogelu gan Bolisi Chwythu'r Chwiban Maint Cymru. Mae honiadau ffug bwriadol yn drosedd ddisgyblu ddifrifol.

Bydd Maint Cymru yn derbyn cwynion gan ffynonellau allanol hefyd, fel aelodau o'r cyhoedd, partneriaid a chyrff swyddogol. Mae'n hanfodol bod cyfrinachedd yn cael ei gynnal.

Bydd Maint Cymru yn sicrhau bod dulliau diogel, priodol a hygyrch o roi gwybod am bryderon diogelu ar gael i staff a'r cymunedau rydym yn gweithio gyda nhw yng Nghymru a thramor.

Bydd pob adroddiad yn dilyn Gweithdrefnau Diogelu Cymru a'r canllaw Cadw Dysgwyr yn Ddiogel ar gyfer pobl ifanc. Gallwch weld canllawiau ar sut i dderbyn pryderon diogelu yn Atodiad 2.

### 6.1. Sut i roi gwybod am bryder diogelu

Pan mae aelod o staff (neu wirfoddolwyr neu ymddiriedolwr) yn pryderu:

- Y gallai plentyn fod yn cael ei gam-drin neu mewn perygl o niwed;
- Y gallai oedolyn mewn perygl fod yn cael ei gam-drin neu mewn perygl o niwed; neu
- Y gallai oedolyn sy'n gweithio gyda phlant neu oedolion sydd mewn perygl / oedolion agored i niwed achosi risg o niwed i'r plant neu'r oedolion hynny sydd mewn perygl / oedolion agored i niwed,

dylent gysylltu ar unwaith â Swyddog Diogelu Maint Cymru neu yn eu habsenoldeb, Swyddog Diogelu'r Ymddiriedolwyr neu unrhyw ymddiriedolwr arall, naill ai wyneb yn wyneb, neu drwy'r cyfeiriadau e-bost neu'r rhif ffôn a nodir isod. Dylai staff ddefnyddio'r ffurflen yn Atodiad 3 i roi gwybod am bryderon.



**Manylion cyswllt:**

*Swyddog Diogelu:* Barbara Davies Quy, barbara@sizeofwales.org.uk +44 (0) 7811 460 269

*Swyddog Diogelu'r Ymddiriedolwyr*: John Hunt (Dirprwy Gyfarwyddwr y Bwrdd / Ymddiriedolwr) trusteesafeguarding@sizeofwales.org.uk

Os yw'n argyfwng a bod perygl uniongyrchol o niwed sylweddol, dylai aelod o staff roi gwybod am yr achos yn allanol i'r gwasanaethau brys ar unwaith. Os nad oes risg uniongyrchol, rhowch wybod am yr achos yn fewnol i'r Swyddog Diogelu.

Oes argyfwng? Oes risg uniongyrchol o niwed difrifol?

Oes Nac oes

Swyddog Diogelu neu Swyddog Diogelu'r Ymddiriedolwyr.

**Rhoi gwybod yn fewnol:** Cysylltwch â'r swyddog diogelu neu Swyddog Diogelu'r Ymddiriedolwyr.

**Rhoi gwybod yn allanol:** Rhowch wybod i'r gwasanaethau brys h.y. yr heddlu, yna cysylltwch â'r

Cwblhewch y ffurflen adrodd diogelu,

trusteesafeguarding@sizeofwales.org.uk

Bydd y Swyddog Diogleu neu Swyddog Diogelu'r Ymddiriedolwyr yn cofnodi pob honiad, datgeliad a phryderon.

## 7. Ymateb i bryder neu honiad

Mae gan Fwrdd Ymddiriedolwyr Maint Cymru gyfrifoldeb diogelu cyffredinol dros yr elusen. Bydd gan Swyddog Diogelu'r Ymddiriedolwyr gyfrifoldeb dros lywodraethu

materion diogelu i'r Bwrdd. Bydd y Swyddog Diogelu yn gweithio gyda Swyddog Diogelu'r Ymddiriedolwyr i ddelio ag unrhyw fater neu bryder sy'n ymwneud â diogelu.

Bydd y Swyddog Diogelu a Swyddog Diogelu'r Ymddiriedolwyr yn cymryd pob pryder a honiad o gam-drin o ddifrif, a bydd yn ymateb yn briodol er mwyn sicrhau diogelwch plant ac oedolion sydd mewn perygl / oedolion agored i niwed sy'n dod i gysylltiad â Maint Cymru. Bydd cyfarfod dros y ffôn yn cael ei gynnal o fewn 24 awr ar ôl asesu'r pryder, ac i ystyried a oes angen rhagor o wybodaeth.

Mae honiad yn gallu ymwneud â pherson sy'n gweithio gyda phlant neu oedolion mewn perygl / oedolion agored i niwed sydd:

- Wedi ymddwyn mewn ffordd sydd wedi niweidio plentyn / oedolyn mewn perygl, neu a allai fod wedi niweidio plentyn / oedolyn mewn perygl;
- O bosibl, wedi cyflawni trosedd yn erbyn plentyn / oedolyn sydd mewn perygl neu'n gysylltiedig â phlentyn / oedolyn mewn perygl; neu, sydd
- Wedi ymddwyn tuag at blentyn, plant neu oedolyn mewn perygl mewn ffordd sy'n dangos y gallent achosi risg o niwed i blant / oedolion sydd mewn perygl / oedolion agored i niwed.

## 7.1. Rhoi gwybod am honiadau yn y Deyrnas Unedig

Os ydy'r honiad yn gysylltiedig â phryder diogelu yn y DU, mae'n rhaid i'r Swyddog Diogelu a Swyddog Diogelu'r Ymddiriedolwyr (os yn gweithredu yn ei le) roi gwybod i Swyddog Dynodedig yr Awdurdod Lleol am bob honiad o gam-drin yn erbyn staff sy'n gweithio yn y Deyrnas Unedig o fewn 24 awr ar ôl i'r honiad ddod i'r amlwg (gweler atodiad 7 am fanylion cyswllt).

Dylai unrhyw gynrychiolydd sy'n credu bod plentyn neu oedolyn mewn perygl / oedolyn agored i niwed mewn perygl enbyd o niwed sylweddol yn y DU, gysylltu â'r heddlu drwy ffonio 999.

- Bydd y Swyddog Diogelu, ar ran Maint Cymru, yn rhoi gwybod am honiadau pan fo *achos rhesymol dros amau* camdriniaeth, esgeulustod neu niwed. Gallai Maint Cymru oedi cyn llunio adroddiad er mwyn asesu p'un a oes digon o wybodaeth i gyfiawnhau achos rhesymol yn dilyn trafodaethau cychwynnol am bryder. Dylai'r oedi fod yn gyfyngedig o ran amser.
- Gallai panel Diogelu sydd yn cynnwys Swyddog Diogelu Maint Cymru, Swyddog Diogelu'r Ymddiriedolwyr a'r Cyfarwyddwr gynnal y gwiriadau mewnol hynny, a phenderfynu mai drwy ymateb mewnol y gellir ymdrin â'r mater orau; gwell goruchwyliaeth, digwyddiad hyfforddi, neu ei fod yn adroddiad maleisus neu'n camddehongli'r sefyllfa. Dylid cofnodi'r sefyllfa a'r ymateb. Monitro ar gyfer y gwelliant gofynnol.

- Efallai na fydd Maint Cymru yn rhoi gwybod am bryder, os yw testun y pryder yn oedolyn sydd â gallu cyfreithiol ac sydd felly, â’r hawl i wneud penderfyniadau y gallai eraill gredu sydd yn beryglus. Gallant ddweud eu bod yn gallu amddiffyn eu hunain (mae oedolyn yn oedolyn mewn perygl dim ond os nad yw’n gallu amddiffyn ei hun rhag camdriniaeth neu esgeulustod). Mae gan yr unigolyn yr hawl i gydsynio/ peidio â chydsynio a newid ei feddwl a gofyn am adroddiad yn ddiweddarach. Gweler pwynt 7.3 am ragor o wybodaeth.

Bydd y sefyllfa’n cael ei dogfennu'n drylwyr yn nogfen dracio diogelu Maint Cymru. Lle bynnag y bo modd, nodir barnau a dymuniadau'r unigolyn a'u canlyniadau dewisol. Mae gwneud penderfyniadau, terfynau amser ac amodau i gyd yn cael eu cofnodi, ac mae Maint Cymru yn ymlynu wrthynt. Os oes gennych unrhyw amheuaeth, siaradwch gydag adran gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol.

## 7.2. Rhoi gwybod am honiadau dramor

Os digwyddodd yr honiad dramor, mae'n rhaid parhau i adrodd y rhain i Swyddog Diogelu Maint Cymru /Swyddog Diogelu'r Ymddiriedolwyr. Bydd Maint Cymru yn dilyn y llwybrau atgyfeirio a nodwyd gan bartneriaid yn eu polisïau diogelu, ac yn cymryd y camau priodol yn unol â chyd-destun lleol. Bydd Maint Cymru yn rhoi cymorth i'r rheiny sydd wedi nodi pryderon diogelu dramor, yn enwedig gan y gallai hyn gael sgil effeithiau lleol difrifol, a'u rhoi mewn perygl.

## 7.3. Caniatâd i ysgrifennu adroddiad diogelu

***Yn achos plentyn***

At ddibenion diogelu, nid yw'n ofynnol cael caniatâd i ysgrifennu adroddiad diogelu am blentyn. Fodd bynnag, ystyrir ei bod yn arfer da ceisio cael caniatâd plentyn i ysgrifennu adroddiad diogelu amdano i'r Gwasanaethau Cymdeithasol neu gyrff diogelu perthnasol mewn gwledydd tramor, yn amodol ar ei oedran a'i ddealltwriaeth (gweler Atodiad 4 - cydsyniad gwybodus).

Os bydd adroddiad yn cael ei baratoi, dylid rhoi gwybod i'r plentyn pa gamau fydd yn cael eu cymryd a pham, a chynnal cyswllt (os yw’n bosibl) â'r unigolyn i dawelu eu meddwl a chynnig cymorth drwy gydol y broses.

Os nad yw Maint Cymru yn rhoi gwybod am hyn i’r gwasanaethau cymdeithasol, dylid cofnodi'r penderfyniad hwn, a dylai'r Swyddog Diogelu drafod opsiynau diogelu gyda'r unigolyn a llwybrau neu opsiynau eraill, drwy asiantaethau eraill o bosibl.

***Yn achos oedolyn/oedolyn bregus mewn perygl***

Pan fo'r adroddiad yn ymwneud ag oedolyn, dylid tybio bod gan yr oedolyn y gallu i wneud penderfyniadau drostynt ei hunain, oni bai bod hyn wedi'i asesu fel arall ac felly, bod ganddo'r hawl i gael gofyn am ei ganiatâd, neu i dynnu ei ganiatâd yn ôl. Felly, dylid cael caniatâd i ysgrifennu adroddiad diogelu ar oedolyn ONI BAI: ● bod trosedd wedi cael ei chyflawni

- y byddai'r sefyllfa, os na rhoddwyd gwybod amdani, yn rhoi pobl eraill mewn perygl o gamdriniaeth debyg (e.e. os yw'n hysbys bod y cyflawnwr tybiedig yn gweithio gyda phobl eraill sydd mewn perygl mewn amgylchiadau tebyg);
- bod yr unigolyn yn destun dylanwadu amhriodol (o bosibl gan y cyflawnwr neu berson sydd â diddordeb mewn ei ddiogelu), pwysau neu orfodaeth, sy'n ei annog i beidio â rhoi caniatâd.
- Os bydd adroddiad yn cael ei baratoi, dylid rhoi gwybod i'r plentyn pa gamau fydd yn cael eu cymryd a pham, a chynnal cyswllt (os yw'n bosibl) â'r unigolyn i dawelu eu meddwl a chynnig cymorth drwy gydol y broses.
- Os nad yw Maint Cymru yn rhoi gwybod am hyn i'r gwasanaethau cymdeithasol, dylid cofnodi'r penderfyniad hwn, a dylai'r Swyddog Diogelu drafod opsiynau diogelu gyda'r unigolyn a llwybrau neu opsiynau eraill, drwy asiantaethau eraill o bosibl. Dylid atgoffa'r unigolyn bod ganddo'r hawl i newid ei feddwl, ac y gellid gwneud adroddiad yn ddiweddarach.

## 7.4. Rhoi gwybod i'r Comisiwn Elusennau

Bydd Bwrdd Ymddiriedolwyr Maint Cymru yn cael gwybod am bob honiad o gamdriniaeth a niwed (fel y'i diffinnir yn yr eirfa uchod) sy'n cynnwys aelod o staff neu bartner. Maen nhw'n gyfrifol am gyflwyno adroddiad digwyddiad difrifol i'r Comisiwn Elusennau, fel sy'n ofynnol pan mae elusen wedi cofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau. Rhoi gwybod am ddigwyddiadau difrifol.

## 7.5. Rhoi gwybod i roddwyr

Bydd Maint Cymru yn rhoi gwybod am unrhyw bryderon diogelu i roddwyr.

Ar gyfer gwaith yng **Nghymru** sydd yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru yng Nghymru, mae'n rhaid i ni ddilyn y canllaw Cadw Dysgwyr yn Ddiogel (KLS) sydd yn cyd fynd â Gweithdrefnau Diogelu Cymru.

Mae'r canllaw Cadw Dysgwyr yn Ddiogel (KLS) wedi'i fwriadu ar gyfer pawb sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc mewn lleoliad addysg neu asiantaeth gysylltiedig, a fyddai'n

elwa o ddeall y broses a'r disgwyliadau ar gyfer diogelu mewn ysgolion, a'r system ehangach.



Mae'r KLS yn ganllaw statudol ar gyfer awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a meithrin, ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydliedig, sefydliadau addysg bellach ac ysgolion annibynnol.

Mae'r KLS yn nodi arfer effeithiol ar gyfer lleoliadau addysgol ehangach ac asiantaethau cysylltiedig, ac yn cael ei argymell fel bod yn berthnasol i wasanaethau ieuenctid a darparwyr dysgu yn y gweithle.

Dylai cyflogwyr a lleoliadau addysgol sydd ymwneud â darparu gwasanaethau addysg i blant a phobl ifanc, gymryd y camau angenrheidiol sydd yn cael eu hamlinellu yn y canllaw hwn.

Mae'r canllaw KLS yn cyd-fynd â Gweithdrefnau Diogelu, sy'n gosod disgwyliadau clir am y ffordd y dylai asiantaethau ac ymarferwyr weithio gyda'i gilydd i ddiogelu plant.

Yn ôl polisi **Diogelu Cymru ac Affrica,** mae'n rhaid i Maint Cymru roi gwybod i dîm Cymru ac Affrica am bob achos o bryder sy’n ymwneud â diogelu sydd yn cael eu derbyn ganddynt o fewn 24 awr ar ôl cael gwybod am unrhyw achos a hefyd, ar ôl cau unrhyw ymchwiliad neu weithdrefnau. Byddai'r wybodaeth hon ond yn cynnwys manylion cryno, sydd ddim yn gallu caniatáu i unigolyn gael ei adnabod. Mae’n rhaid i Maint Cymru ddarparu crynodeb blynyddol o'r holl achosion diogelu a roddir gwybod amdanynt, a chanlyniad pob achos. Bydd Maint Cymru yn cynnal archwiliad rheolaidd o'r asiantaethau hynny sy'n cael cymorth grant hefyd, ac yn rhoi gwybod i Cymru ac Affrica am y canlyniadau.

## 7.6. Mesurau Disgyblu

Pan mae cynrychiolydd Maint Cymru yn destun honiad, bydd y sefydliad yn cynnal asesiad risg ar unwaith ac yn ymgynghori gyda Swyddog Penodedig Awdurdod Lleol (LADO) neu asiantaeth statudol berthnasol arall. Gall aelod o staff gael ei atal fel cam niwtral i ddiogelu pawb tra bod ymchwiliad yn cael ei gynnal; nid yw atal yn awgrymu eu bod yn euog. Bydd penderfyniadau ynghylch atal yn cael eu gwneud gan uwch reolwyr mewn ymgynghoriad gyda'r arweinwyr diogelu. Bydd mesurau disgyblu priodol, gan gynnwys diswyddo, yn cael eu cymhwyso i staff a ddarganfyddir eu bod wedi torri'r polisi. Lle nad oes digon o dystiolaeth ar gyfer cam gweithredu gan yr heddlu, bydd Maint Cymru yn gwneud penderfyniad mewnol yn seiliedig ar y wybodaeth sydd ar gael, gan gymhwyso'r safon profi sifil (yn ôl yr hyn sy’n debygol) i benderfynu a yw'r honiad yn fwy tebygol na pheidio o fod yn wir. Bydd pob gwybodaeth yn cael ei thrin yn gyfrinachol, a dim ond yn cael ei hanu ar sail angen gwybod.

Mae gan Maint Cymru ddyletswydd hefyd i roi gwybod i'r DBS os yw unigolyn yn ymwneud â gweithgaredd a reoleiddir gyda Maint Cymru, neu'n debygol o fod mewn gweithgaredd a reoleiddir mewn sefydliad arall (ar draws y DU). Byddai Maint Cymru



hefyd yn defnyddio'r Cynllun Datgelu Camymddwyn ar gyfer gweithwyr rhyngwladol sydd wedi cael eu contractio gan Maint Cymru.

## 7.7. Cymorth i oroeswyr a staff

Bydd Maint Cymru yn cynnig cymorth i oroeswyr niwed a achosir gan staff neu staff cysylltiedig, drwy rannu manylion asiantaethau arbenigol os yw'n briodol ac os gofynnir amdano. Pan fo'n briodol, dylech ddiweddaru'r person sy'n codi'r pryder/honiad ynghylch y cynnydd a'r datrysiad, oni bai:

- bod y sefyllfa'n golygu bod yn rhaid i ni barchu preifatrwydd unigolion a allai gael eu heffeithio;
- bod y goroeswr wedi nodi'n benodol y byddai'n well ganddynt beidio â chael cyswllt,
- bod yr honiad wedi cael ei wneud yn ddienw, ac nid yw hyn yn bosibl.

Os yw'r goroeswr yn blentyn neu fel arall, yn methu â gwneud penderfyniadau, bydd cymorth yn cael ei ddarparu gan warcheidwad, gofalwr neu eiriolwr priodol[2].

Mae Maint Cymru yn cydnabod y gallai staff Maint Cymru sydd wedi gorfod ymateb i honiad diogelu ganfod bod y sefyllfa'n peri straen ac yn peri gofid. Byddwn yn cefnogi ein staff i drafod effaith eu profiad gyda'r Swyddog Diogelu, ac i geisio cymorth pellach fel y bo'n briodol.

Gweler Atodiad 7 i gael rhagor o wybodaeth am atgyfeiriadau.

## 7.8. Rhoi gwybod am fwlio neu aflonyddu

Mae gan staff Maint Cymru yr hawl i weithio mewn amgylchedd sy'n saff, yn ddiogel ac sydd heb aflonyddu a cham-drin. Mae gan Maint Cymru nifer o bolisïau i gefnogi hyn, a gellir dod o hyd i fanylion am y rhain yn y Llawlyfr Staff. Os yw aelod o staff yn pryderu y gallai aelod o staff fod yn aflonyddu neu'n bwlio aelod arall o staff, neu'n gwneud i eraill deimlo'n anniogel neu'n anghyfforddus, dylent siarad â'r Cyfarwyddwr neu gydag Ymddiriedolwr.

# 8. Monitro a Gwerthuso

Mae gan Fwrdd Ymddiriedolwyr Maint Cymru gyfrifoldeb diogelu cyffredinol dros yr elusen. Bydd Maint Cymru yn adolygu effeithiolrwydd ei harferion diogelu yn rheolaidd,

[2] Yng Nghymru, mae gan unrhyw un sy'n destun gweithdrefnau diogelu, ac a allai fod â rhwystrau i ddeall yn llawn, gan gynnwys pob plentyn, yr hawl i eiriolwr, boed yn anffurfiol (gofalwr, aelod o'r teulu, gweithiwr cymorth mewn rôl arall) ond yn "briodol", sy'n golygu peidio â bod yn rhan o'r pryder diogelu mewn unrhyw ffordd.



ac yn asesu gwybodaeth a dealltwriaeth staff a rhanddeiliaid. Bydd yr holl benderfyniadau diogelu yn cael eu dogfennu a'u hadolygu, gan gasglu'r gwersi a ddysgwyd. Bydd Bwrdd Ymddiriedolwyr Maint Cymru yn adolygu materion diogelu fel rhan o'r gwaith o fonitro'r gofrestr risg diogelu bob chwarter. Bydd cyfarfod adolygu yn cael ei gynnal bob chwarter rhwng y Swyddog Diogelu, Arweinydd Diogelu'r Ymddiriedolaeth a Chyfarwyddwr Maint Cymru lle bo angen. Bydd diogelu'n cael ei drafod yn y cyfarfodydd Bwrdd Chwarterol ac yn y cyfarfodydd i Swyddogion Allgymorth Addysg sydd yn cael eu cynnal bob chwarter hefyd.

## 9. Cyfrinachedd

Mae'n bwysig dros ben bod cyfrinachedd yn cael ei gynnal ar bob cam o'r broses wrth ymdrin â phryderon diogelu. Dylid rhannu gwybodaeth sy'n ymwneud â'r pryder, a rheoli achosion dilynol ar sail yr angen i wybod yn unig, a dylid ei chadw'n ddiogel bob amser. Bydd ffolder ddynodedig yn cael ei chreu, a dim ond y Swyddog Diogelu a Swyddog Diogelu'r Ymddiriedolwyr fydd yn gallu cael mynediad iddi.

Bydd Maint Cymru ond yn rhannu gwybodaeth am blentyn ag oedolion sydd â chyfrifoldeb rhiant, os nad yw hyn yn rhoi'r plentyn mewn mwy o berygl o niwed. Dylid trafod hyn gyda'r awdurdod lleol perthnasol. Gellir rhannu gwybodaeth gyda rhiant/gwarcheidwad hefyd lle bo angen, er mwyn diogelu'r plentyn rhag niwed. Mae'n rhaid i holl staff Maint Cymru fod yn ymwybodol bod gan Maint Cymru gyfrifoldeb proffesiynol i rannu gwybodaeth gydag asiantaethau eraill er mwyn diogelu plant. Dylid rhannu gwybodaeth am oedolyn â'r sawl maen nhw wedi gofyn amdano/ei enwi yn unig. Mae anhysbysrwydd yn warchodedig lle bynnag y bo modd, ond nid dyma fydd yr achos pan fydd trosedd wedi'i chyflawni ac os ydy'r heddlu neu'r tîm cyfiawnder troseddol ynghlwm.

## 10. Atodiad 1: Rhestr Termau

**Oedolyn mewn perygl / oedolyn agored i niwed:** Mae oedolyn agored i niwed (cyd destun datblygu rhyngwladol) yn unigolyn 18 oed neu hŷn sydd mewn mwy o berygl o niwed sylweddol oherwydd ffactorau fel rhyw, oedran, iechyd meddwl neu gorfforol, neu o ganlyniad i dlodi, anghydraddoldeb neu brofiad o ddadleoli neu argyfwng. Diogelu oedolion sy'n agored i niwed yw'r broses o amddiffyn oedolion rhag cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso, ac sy'n galluogi oedolion i gadw rheolaeth dros eu bywydau a gwneud dewisiadau gwybodus heb orfodaeth.

Mae a126(1) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn diffinio oedolyn sy'n wynebu risg fel oedolyn sydd:

1. Yn profi neu mewn perygl o brofi camdriniaeth neu esgeulustod,
2. Yn meddu ar anghenion am ofal a chymorth (p'un a yw'r awdurdod yn diwallu unrhyw un o'r anghenion hynny ai peidio), ac
3. O ganlyniad i'r anghenion hynny, na all amddiffyn ei hun rhag camdriniaeth neu esgeulustod neu'r perygl ohonynt.

Mae'n bwysig nodi:

- mae defnyddio'r term ' 'wynebu risg' yn golygu nad oes angen i gamdriniaeth neu esgeulustod gwirioneddol ddigwydd cyn i ymarferwyr ymyrryd, yn hytrach dylid ystyried ymyriadau cynnar i amddiffyn oedolyn sy'n wynebu risg er mwyn atal camdriniaeth ac esgeulustod gwirioneddol;
- mae'r tri amod sy'n angenrheidiol i ddangos bod oedolyn sy'n wynebu risg o gamdriniaeth neu esgeulustod yn sicrhau bod amddiffyniad yn cael ei ddarparu i'r

rheini ag anghenion gofal a chymorth sydd hefyd angen camau i sicrhau diogelwch yr unigolyn yn y dyfodol oherwydd nad yw'n gallu amddiffyn ei hun;

- bod camdriniaeth oedolion yr ystyrir eu bod 'mewn perygl' yn aml yn gysylltiedig â'u hamgylchiadau yn hytrach na nodweddion y bobl sy'n profi niwed;[1]
- gall y risg o gamdriniaeth neu esgeulustod fod yn ganlyniad un pryder neu ganlyniad i ffactorau cronnus.

**Buddiolwr / Cyfranogydd prosiect**

Rhywun sy'n derbyn nwyddau neu wasanaethau yn uniongyrchol o raglenni Maint Cymru yng Nghymru neu dramor. Sylwer bod camddefnyddio pŵer yn gallu bod yn berthnasol i'r gymuned ehangach mae Maint Cymru yn ei gwasanaethu hefyd, a'i fod yn gallu cynnwys cam-fanteisio hefyd drwy greu'r canfyddiad o fod mewn sefyllfa o bŵer.

**Plentyn**



Unigolyn dan 18 oed.

**Person ifanc**

Yn y DU, person ifanc ydy rhywun 16 neu 17 oed sy'n byw yn annibynnol. Serch hynny, maen nhw'n dal i gael eu diffinio fel plant yn gyfreithiol ac at ddibenion diogelu/amddiffyn. Dramor, gall person ifanc yn aml fod yn rhywun 18-24 oed.

**Niwed**

Niwed seicolegol, corfforol ac unrhyw achos arall o dorri hawliau unigolyn. Mae'r canlynol yn rhestr anghyflawn o enghreifftiau ar gyfer pob un o'r categorïau cam-drin:

- **Camdriniaeth gorfforol –** Niwed (ymosod, taro, slapio, dyrnu, cicio, tynnu gwallt, brathu, gwthio, trin yn arw) sgaldio a llosgi, cosbau corfforol, defnydd amhriodol neu anghyfreithlon o ataliaeth, neu gosbau amhriodol, arwahanrwydd neu gyfyngu anwirfoddol, camddefnyddio meddyginiaeth, bwydo trwy rym neu ddal bwyd yn ôl, atal heb awdurdod.
- **Camdriniaeth rywiol -** ymyrraeth gorfforol o natur rywiol sy'n wirioneddol neu a fygythiwyd, boed hynny drwy rym neu dan amodau anghyfartal neu drwy orfodaeth. Gall hyn gynnwys treisio, ceisio treisio neu ymosodiad rhywiol, cyffyrddiad amhriodol yn unrhyw le, mastyrbio anghydsyniol y naill berson neu'r llall neu'r ddau, edrych yn amhriodol, pryfocio rhywiol neu ensyniadau neu aflonyddu rhywiol, ffotograffiaeth rywiol neu ddefnydd gorfodol o bornograffi neu'n dyst i weithredoedd rhywiol, amlygiad anweddus.
- **Trais yn y cartref:** Ymddygiad rheoli, gorfodaeth neu fygythiol, trais neu gamdriniaeth rhwng y rhai sydd yn 16 oed neu'n hŷn, sydd yn, neu a fu'n bartneriaid agos neu'n aelodau o'r teulu waeth beth fo'u rhyw neu

rywioldeb. Mae hefyd yn cynnwys trais ar sail 'Anrhydedd', anffurfio organau cenhedlu benywod a phriodas dan orfod.

- **Camfanteisio rhywiol** - unrhyw gamddefnyddio gwirioneddol, neu ymgais i gamddefnyddio sefyllfa lle mae rhywun yn agored i niwed, lle mae pŵer gwahaniaethol, neu ymddiriedaeth, at ddibenion rhywiol, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, ymelwa'n ariannol, yn gymdeithasol neu'n wleidyddol ar gam-fanteisio'n rhywiol ar rywun arall. Mae'r diffiniad hwn yn cynnwys masnachu mewn pobl a chaethwasiaeth fodern.
- **Cam-drin seicolegol** - Cam-drin emosiynol neu seicolegol, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig) i driniaeth fychanol a diraddiol fel galw enwau cas, beirniadu'n gyson, gorfodaeth, bwlio, seibrfwlio, bychanu, cywilyddio'n barhaus, carchariad unigol ac arwahanrwydd gorfodedig (e.e. atal rhywun rhag cyrchu gwasanaethau, cyfleoedd addysgol a chymdeithasol a gweld ffrindiau), cael gwared ar gymhorthion symudedd neu gyfathrebu, neu adael rhywun heb oruchwyliaeth yn fwriadol pan fydd angen cymorth arno.



**Amddiffyn rhag Camfanteisio a Cham-drin Rhywiol (PSEA)**

Y term a ddefnyddir gan y gymuned ddyngarol a datblygu i gyfeirio at atal camfanteisio a cham-drin rhywiol mewn poblogaethau yr effeithir arnynt gan staff neu staff cysylltiedig. Mae'r term yn deillio o Fwletin Cyffredinol Ysgrifennydd y Cenhedloedd Unedig ar Fesurau Arbennig ar gyfer Amddiffyn rhag Camfanteisio a Cham-drin Rhywiol (ST/SGB/2003/13).

**Diogelu**

Yn y **DU**, mae diogelu'n golygu diogelu iechyd, lles a hawliau dynol pobl, a'u galluogi i fyw heb niwed, camdriniaeth ac esgeulustod.[3] Yng **Nghymru** ..." mae diogelu'n golygu atal ac amddiffyn plant ac oedolion sydd mewn perygl / oedolion agored i niwed rhag cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso, ac addysgu'r rheiny o'u hamgylch i adnabod yr arwyddion a'r peryglon". [4]

Ym maes **datblygu rhyngwladol**, mae'n golygu amddiffyn pobl, gan gynnwys plant ac oedolion sydd mewn perygl, rhag niwed sy'n deillio o ddod i gyswllt â'n staff neu raglenni. Mae diffiniad un rhoddwr fel a ganlyn:

"Ystyr diogelu yw cymryd pob cam rhesymol i atal niwed, yn enwedig camfanteisio rhywiol, camdriniaeth ac aflonyddu rhag digwydd; i amddiffyn pobl, yn enwedig oedolion a phlant agored i niwed, rhag y niwed hwnnw; ac ymateb yn briodol pan fydd niwed yn digwydd".

Mae'r diffiniad hwn yn deillio o'n gwerthoedd a'n hegwyddorion, ac yn siapio ein diwylliant. Mae'n rhoi sylw penodol i atal ac ymateb i niwed oherwydd unrhyw

gamddefnydd o bŵer, ymddiriedaeth neu wendid, boed arfaethedig, gwirioneddol neu ymgais i wneud hynny yn enwedig at ddibenion rhywiol.

Mae diogelu'n berthnasol yn gyson ac heb eithriad ar draws ein rhaglenni, ein partneriaid a'n staff. Mae'n gofyn am fwrw ati'n rhagweithiol i nodi, atal a diogelu rhag pob risg o niwed, camfanteisio a cham-drin a chael systemau aeddfed, atebol a thryloyw ar gyfer ymateb, adrodd a dysgu pan fydd risgiau'n dod i'r amlwg. Mae'n rhaid i'r systemau hynny fod yn ganolog i oroeswyr, a diogelu'r rheiny a gyhuddir hefyd, hyd nes y profir eu bod yn euog.

Mae diogelu yn rhoi cyfranogwyr / buddiolwyr prosiectau a phobl yr effeithir arnynt wrth wraidd popeth a wnawn.

[3] NHS 'What is Safeguarding? Easy Read' 2011
[4] https://www.safeguarding.wales/glossary.html



**Goroeswr**

Yr unigolyn sydd wedi cael ei gam-drin neu ei gam-fanteisio. Mae'r term 'goroeswr' yn cael ei ddefnyddio'n aml yn hytrach na 'dioddefwr', gan ei fod yn awgrymu cryfder, gwydnwch a'r gallu i oroesi, ond dewis yr unigolion yw sut maen nhw'n dymuno adnabod eu hunain.

**Staff Cysylltiedig -** Yr holl staff cyflogedig neu ddi-dâl, gwirfoddolwyr, gweithwyr llawrydd, ymchwilwyr, ymgynghorwyr, contractwyr, aelodau bwrdd, ymwelwyr â rhaglenni gan gynnwys newyddiadurwyr, enwogion a gwleidyddion sydd wedi cael eu penodi neu eu recriwtio gan Maint Cymru, neu y bernir eu bod yn cynrychioli Maint Cymru mewn unrhyw ffordd yng Nghymru neu dramor.

**Partneriaid Maint Cymru:** Yn cyfeirio at bartneriaid cyflenwi rhaglenni y mae gan Maint Cymru gytundeb ariannu â nhw i ddarparu rhaglenni dramor.

**Cydsyniad ar Sail Gwybodaeth**: y gallu i roi caniatâd yn seiliedig ar yr holl wybodaeth sydd ar gael, yn ôl oedran a galluoedd esblygol yr unigolyn. Mae'n rhaid i'r unigolyn ddeall diben y gweithgaredd yn llawn er mwyn i'r cydsyniad fod yn wybodus.